WE MIND THE GAP.™

# Swyddog Datblygu Ieuenctid

WE DISCOVER

**Pecyn Recriwtio 2026**

CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND

# YDO
# WeDiscover

Fel Swyddog Datblygu Ieuenctid (YDO) gyda WeMindTheGap byddwch yn cael y cyfle i fod yn rhan o rywbeth arbennig. Mae ein rhaglenni arobryn yn cael eu cyflwyno i bobl ifanc gyda chariad, gofal a chysondeb heb gywilydd, gan roi'r sylfaen maen nhw ei hangen i ffynnu.

Bydd y rôl YDO hon yn gweithio ar ein rhaglen WeDiscover sy'n cwmpasu Wrecsam a Sir y Fflint, gan gefnogi ein Gappies gyda gweithdai a mentora mewn perthynas â cheisiadau am swyddi, paratoi am gyfweliad, mentora, meithrin hyder, a'u cysylltu â chyflogwyr lleol.

Rydym ni'n chwilio am fodel rôl sydd yno i wneud yn siŵr bod ein pobl ifanc yn gallu manteisio i'r eithaf ar bob cyfle sy'n cael ei gyflwyno iddynt yn ystod eu rhaglen WeMindTheGap, a thu hwnt!

Allech chi fod yr un rydym ni'n chwilio amdano?







# Manylion Cyflogaeth

Lleoliad:
Wrecsam neu'r Fflint, gan gynnwys teithio achlysurol ac i gymunedau eraill WemindTheGap.

Cyflog:
£21,216 (£26,520 Cyfwerth ag amser llawn)

Dyddiad Cychwyn:
Dydd Llun 9 Tachwedd 2026

Cytundeb:
Parhaol, 30 awr / 4 diwrnod yr wythnos

Gwyliau Blynyddol:
25 diwrnod pro rata y flwyddyn ynghyd â Gwyliau Banc

Yn adrodd i:
Arweinydd y Rhaglen Ieuenctid

Buddion eraill:
Pensiwn – gyda chyfanswm cyfraniadau o hyd at 8%Prawf llygaid am ddim
Dillad gwaith â brand y sefydliad
Datblygiad proffesiynol a chymorth lles drwy WeMatterYstyrir trefniadau gweithio hyblyg a hybrid

- Rhaid meddu ar drwydded yrru lawn ddilys yn y DU am o leiaf un flwyddyn.
- Bydd gofyn i bob ymgeisydd ddarparu tystiolaeth ddilys o'u hawl i weithio yn y DU fel rhan o'r gwiriadau cyn cyflogaeth.
- Gan ein bod ni'n gweithio gydag oedolion a phlant sy'n agored i niwed, gofynnir i chi ddarparu datganiad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd .





# Y Broses Ymgeisio

- Bydd eich cais yn cael ei werthuso yn erbyn ein manyleb person gan ein Gwneuthurwr Cymunedol ac Arweinydd y Rhaglen.

- Os ydych chi angen addasiadau rhesymol ar unrhyw gam o'r broses, cysylltwch â jobs@wemindthegap.org.uk

- Mae WeMindTheGap wedi ymrwymo i Gyfle Cyfartal, gan groesawu ceisiadau gan y gymuned gyfan

- Mae WeMindTheGap wedi ymrwymo i ddatblygu pobl a bydd yn ymdrechu i ddarparu adborth i bob ymgeisydd.

- Bydd eich data yn cael ei reoli yn unol â GDPR. Byddwn yn cadw eich data am ddim mwy na 3 mis o ddiwedd y broses ymgeisio



# Sut i Wneud Cais

I wneud cais, anfonwch eich CV atom ynghyd â llythyr eglurhaol un dudalen (neu fideo 2 funud o hyd) yn amlinellu eich addasrwydd ar gyfer y rôl.

Bydd eich cais yn cael ei ystyried ar sail pa mor dda rydych chi'n bodloni'r fanyleb person ar gyfer y rôl hon, a bydd unrhyw gynnig cyflogaeth yn amodol ar wiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a geirdaon addas.

Os byddwch yn cyrraedd y rhestr fer, byddwch yn cael eich gwahodd i 'Ddiwrnod Darganfod' 3 awr, sef digwyddiad recriwtio grŵp sy'n cynnwys cyfweliad ffurfiol gyda chwestiynau sefyllfaol a chwestiynau sy'n seiliedig ar gymhwysedd, gweithgaredd grŵp, cyflwyno sesiwn ymarferol enghreifftiol, a chyfle i gwrdd â'n timau a chyn-aelodau Gappie.

Mae ein proses recriwtio yn adlewyrchu sut rydym ni'n trin ein Gappies a'n gweithwyr. Rydym ni am feithrin diwylliant o adborth adeiladol a gwelliant parhaus felly rydym ni'n eich annog i roi gwybod i ni sut y gallwn ni wella profiad ymgeiswyr.
Yn yr un modd, os hoffech gael adborth ar eich cais aflwyddiannus, cysylltwch â ni.

Llinell Amser Recriwtio:

- Ceisiadau'n agor: Dydd Mawrth 1 Medi 2026
- Ceisiadau'n cau: Dydd Gwener 25 Medi 2026
- Diwrnod Darganfod: Dydd Mercher 7 Hydref 2026
- Dyddiad dechrau cyflogaeth: Dydd Llun 9 Tachwedd 2026

Anfonwch eich cais a chwestiynau pellach i:

jobs@wemindthegap.org.uk



# Y Rôl

Yn y rôl hon, byddwch yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno ein rhaglen datblygu ieuenctid ddigidol, WeDiscover, yn llwyddiannus, gan ddarparu cymorth ac arweiniad i bobl ifanc.

Mae ein gwaith yn heriol. Mae'n gofyn am amser, ymroddiad ac amynedd. Ond mae'r effaith rydym ni'n ei chael ar bobl ifanc yn gwneud y cyfan yn werth chweil. Mae ein gwerthoedd, ein 'Cs Hud', yn ein harwain ac yn ein helpu i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n wirioneddol bwysig – gwneud yr hyn sy'n iawn i'n Gappies, nid yr hyn sy'n hawdd. Mae'n fraint cael gweithio gyda phartneriaid cymunedol ymroddedig sy'n rhannu ein gweledigaeth ac yn ymuno â ni yn ein cenhadaeth i sicrhau newid gwirioneddol a pharhaol i bobl ifanc sy'n haeddu gwell.

Yn y byd heddiw sy'n newid yn gyflym, mae lles a dyheadau pobl ifanc yn bwysicach nag erioed. Rydym ni'n rhagweld byd lle mae pob person ifanc yn teimlo eu bod nhw'n perthyn a lle maen nhw'n meddu ar y sgiliau a'r hyder i wneud dewisiadau ystyrlon mewn bywyd a gwaith. Rydym ni'n cerdded ochr yn ochr â phobl ifanc gyda chariad, gofal a chwilfrydedd, gan ddarparu cyfleoedd newydd a chefnogaeth barhaus i'w helpu i ffynnu.





# Cyfrifoldebau Allweddol

- Cefnogi'r gwaith o recriwtio Gappies drwy ymgysylltu ag asiantaethau atgyfeirio, mynychu digwyddiadau recriwtio, a chymryd rhan mewn cyfarfodydd gwybodaeth ar-lein ac wyneb yn wyneb.

- Mynychu cyfarfodydd amlasiantaethol i annog cydweithio o ran cefnogaeth rhwng asiantaethau atgyfeirio, rhieni, gwarcheidwaid a phobl ifanc.

- Mynychu digwyddiadau a gweithgareddau allanol ar ran WeMindTheGap, gan gynnwys digwyddiadau recriwtio, digwyddiadau gwybodaeth, ffeiriau recriwtio a chyfarfodydd rhwydweithio yn eich cymuned.

- Cefnogi digwyddiadau allweddol y rhaglen, gan gynnwys teithiau preswyl a theithiau dydd, gan fod yn fodel rôl o'r radd flaenaf i Gappies.

- Cynllunio, cefnogi a chyflwyno sesiynau ar-lein ac wyneb yn wyneb sy'n cwmpasu themâu'r rhaglen. Gall y rhain gynnwys cyflogadwyedd, dyheadau ar gyfer y dyfodol, hunanddatblygiad a magu hyder, ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r rhain.

- Cydlynu â chysylltiadau allanol, gan eu gwahodd i gwrdd â Gappies fel siaradwyr gwadd, a chefnogi'r gwaith o gyfathrebu â hyfforddwyr, partneriaid sy'n gyflogwyr a chysylltiadau eraill.

- Cefnogi prosesau ymsefydlu Gappies er mwyn sicrhau bod pob person ifanc wedi'i baratoi'n briodol ar gyfer ei raglen WeMindTheGap.

- Cefnogi'r gwaith o ddatrys problemau sy'n codi ar y diwrnod, gan weithio ochr yn ochr â'ch Arweinydd Rhaglen Ieuenctid i ddod o hyd i atebion creadigol.

- Darparu cymorth lles i Gappies drwy fentora un-i-un ac mewn grwpiau, gan eu hatgyfeirio at wasanaethau allanol a'u cyfeirio at gymorth pellach pan fo angen.

- Mynychu teithiau preswyl a theithiau dydd, gan fod yn fodel rôl o'r radd flaenaf i'r garfan wrth rannu profiadau newydd.

# Cyfrifoldebau Allweddol

- Bod yn ymwybodol o weithdrefnau diogelwch, dilyn asesiadau risg a mesurau diogelu. Mae hyn yn cynnwys uwchgyfeirio at Arweinydd y Rhaglen Ieuenctid yn ôl yr angen.
- Cefnogi'r Arweinydd Rhaglen Ieuenctid i gyflawni'r rhaglen o fewn cyllideb y cytunwyd arni.
- Bod yn gyfrifol am dynnu lluniau ar adegau allweddol trwy gydol y rhaglen i'w defnyddio ar sianeli ac adnoddau cyfryngau cymdeithasol WeMindTheGap.
- Gweithio ar y cyd â Swyddogion Datblygu Ieuenctid ac Arweinwyr Rhaglenni Ieuenctid eraill, o fewn eich tîm ac ar draws timau eraill yn WeMindTheGap.
- Mynychu cyfarfodydd tîm wythnosol a sesiynau dal i fyny rheolaidd gyda'ch Arweinydd Rhaglen Ieuenctid.
- Cefnogi'r gwaith o gynnal a meithrin perthnasoedd pwysig â phartneriaid WeMindTheGap yn eich cymuned.
- Cefnogi ymgysylltiad parhaus ag asiantaethau atgyfeirio a grwpiau cymunedol, gan sicrhau bod gwasanaethau a gwaith WeMindTheGap yn hysbys ym mhob cwr o'r gymuned.
- Sicrhau bod systemau mewnol yn cael eu diweddaru â gwybodaeth Gappies ac yn cael eu trefnu mewn ffordd effeithlon a chydymffurfiol.
- Sicrhau bod manylion yn ddiogel ac yn saff yn unol â GDPR.
- Gweithio ochr yn ochr â'n tîm Effaith a Gwerthuso wrth adolygu pob rhaglen, gan greu gwerthusiad cadarn yn unol â strategaeth gyffredinol WeMindTheGap.
- Cludo Gappies yng ngheir cronfa WeMindTheGap, gan yrru mewn ardaloedd gwledig a threfol, gan gynnwys gyrru pellteroedd hir ac ar draffyrdd.
- Creu a rhannu postiadau cyfryngau cymdeithasol rheolaidd ar draws holl sianeli WeMindTheGap.
- Mynychu teithiau a digwyddiadau achlysurol sy’n cynnwys aros dros nos, ar benwythnosau neu y tu allan i oriau gwaith, gan gefnogi Gappies nad ydynt o bosibl erioed wedi bod oddi cartref o’r blaen.

# Manyleb Person

| Profiad, gwybodaeth a sgiliau | Hanfodol / Dymunol |
| --- | --- |
| Profiad o gefnogi gweithgareddau i bobl ifanc | Hanfodol |
| Profiad o weithio fel rhan o dîm | Hanfodol |
| Profiad o gefnogi cyfathrebu mewnol ac allanol, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol, siarad cyhoeddus a rhwydweithio | Hanfodol |
| Profiad o ddefnyddio systemau TG, yn benodol Microsoft Essential | |
| Trwydded yrru lawn y DU ar gyfer cerbydau â llaw (darperir cymorth pellach os cafwyd y drwydded o fewn y 6 mis diwethaf) | Hanfodol |
| Dealltwriaeth o ddiogelu | Dymunol |
| Dealltwriaeth, profiad byw, neu addysg pam mae pobl ifanc yn cwympo trwy'r bylchau mewn bywyd | Dymunol |
| Gwybodaeth am gyflogadwyedd a gweithgareddau dilyniant sgiliau | Dymunol |
| Profiad o gefnogi pobl ifanc gydag ymddygiad heriol | Dymunol |
| Dealltwriaeth o drin data sensitif o dan GDPR | Dymunol |
| Profiad o weithio i gyllideb | Dymunol |
| Profiad o ysgrifennu astudiaethau achos | Dymunol |
| Profiad o gefnogi perthnasoedd â rhanddeiliaid allanol | Dymunol |

| | |
|---|---|
| Gwybodaeth am Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) | Dymunol |

# Mwy am WeMindTheGap

Cefnogi pobl ifanc lleol i gael Cyflogaeth, Addysg neu Hyfforddiant drwy

Ddarparu Sgiliau Bywyd a Chyflogadwyedd gyda chariad, gofal, cyfleoedd ystyrlon ac Ymdeimlad o Berthyn

**WeInspire** Rhaglen gefnogol, feithringar ar gyfer pobl ifanc 11-15 mlwydd oed sy'n cael trafferth gydag addysg draddodiadol. Adeiladu hyder, gwydnwch, ac ymdeimlad o berthyn i fyfyrwyr ble bynnag y byddant, yn yr ysgol neu yn eu cartref.

---

**WeDiscover** Rhaglen rithwir ar gyfer pobl ifanc 16 – 25 mlwydd oed. Cyfle i ennill sgiliau a phrofiadau newydd gyda chefnogaeth mentor, gan adeiladu cynllun ar gyfer dyfodol disglair.

---

**WeGrow** Rhaglen sy'n newid bywydau ar gyfer pobl ifanc 18-25 mlwydd oed, gan gynnwys chwe mis o gyflogaeth â thâl, lleoliad gwaith, sesiynau hyfforddi a mentora, diwrnodau gweithgareddau a phrofiadau.

---

**WeBridge** Rhaglen wedi'i chynllunio ar gyfer pobl ifanc 16-25 mlwydd oed sydd â chymhelliant i weithio ond sy'n wynebu heriau wrth sicrhau cyflogaeth neu rolau gwirfoddol trwy lwybrau traddodiadol. Mae'r ffocws ar nodi a mynd i'r afael ag unrhyw 'rwystrau neu fylchau', megis profiad, sgiliau, neu hyder.

---

**WeBelong** Rydym ni'n cynnig cymorth gydol oes a thîm diogel a dibynadwy i siarad â nhw p'un a yw hynny'n golygu helpu gydag addysg, cyflogaeth, gwirfoddoli, lles a lles.

# Ein gwerthoedd - Ein C's Hud

WE MIND THE GAP.™

## COURAGE

We do what is right and not what is easy.

## CAPACITY

We have the space, time, resilience and support required to perform our respective roles to the best of our ability.

## CONSTANCY

We are always here, and always will be: people and places of safety who keep our promises and provide the support, challenge and care that our trainees deserve.

## CAN-DO

We walk alongside our trainees, take the initiative, make good things happen and always focus on a solution, not a problem.

## CONFIDENCE

We believe absolutely in our vision, our model and the impact we deliver.

## COMMITMENT

We will go to the ends of the earth to make sure that our trainees have the wherewithal to be 'pilots of our own lives'.

## CONNECTIVITY

We build positive relationships with and between our trainees and the world, to create their rightful place within a meaningful community.

## CELEBRATION

We celebrate every success, no matter how big or small.

## COMPASSION & CARE

The magic ingredients, mixed with a big cupful of love. The encouragement, reassurance and genuine care we extend to every individual is fundamental to them developing the confidence to explore their choices in the world.

## CURIOSITY

We ask why, to keep learning, to help our trainees grow and develop, to grow and develop best practice that others can learn from.